Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gwasanaeth Cymdogaeth, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd

Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2020

I gyflawni Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad (Medi 2020)

Swyddog Awdurdod Lleol	Peter Oates
Adran	Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd
Cyfeiriad	Tŷ Blaen Torfaen, Panteg Way, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 0LS
Ffôn	01633 647290
Ebost	peter.oates@torfaen.gov.uk
Rhif cyfeirio'r Adroddiad	TCBC PR 2020
Dyddiad	Medi 2020

Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal

Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae llygredd aer yn deillio o gyflwyno amrywiol sylweddau i'r atmosffer o amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall achosi effeithiau byrdymor a hirdymor ar iechyd, ond hefyd ar yr amgylchedd yn ehangach. Mae ansawdd yr aer yng Nghymru yn gyffredinol yn well nawr nag y mae wedi bod ar unrhyw adeg ers y Chwyldro Diwydiannol.

Cafwyd y gwelliannau hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth yn gorfodi mwy o reolaeth o allyriad llygryddion o ffynonellau allweddol, yn benodol diwydiant, llosgi domestig a thrafnidiaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau a gafwyd, mae llygredd aer yn dal i gael ei gydnabod fel perygl i iechyd, ac mae llawer o bobl yn bryderus am y llygredd yn yr aer maent yn ei anadlu.

Mae ystadegau'r llywodraeth yn amcan bod llygredd aer yn y DU yn gostwng disgwyliad oes pob person 7-8 mis ar gyfartaledd, gyda chost cysylltiedig o hyd at £20 biliwn y flwyddyn. Mae deddfwriaeth a pholisïau gyda'r nod o leihau ymhellach ac olrhain effaith llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd wedi eu cyflwyno yn Ewrop, y DU ac yng Nghymru.[1]

Gellir datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) pan fydd gormodiant neu fo'n debygol y bydd gormodiant o amcan ansawdd aer. Dangosodd canlyniadau monitro tiwbiau tryledu 2019 bod un tiwb wedi torri'r amcan cenedlaethol o 40 µg/m^3 ar 47 µg/m^3. Penderfynodd yr awdurdod lleol bod angen mwy o wybodaeth er mwyn sefydlu maint gofodol unrhyw doriad posibl o'r Amcan Cenedlaethol cyn symud ymlaen i sefydlu ARhAA. Arweiniodd hyn at leoli 4 tiwb ychwanegol ac adleoli 2 diwb darlleniad isel i'r gogledd a'r de o'r gormodiant gwreiddiol. Caiff canlyniadau'r tiwbiau hyn eu cyflwyno yn adroddiad cynnydd 2021 a dylai helpu i sefydlu unrhyw ARhAA bosibl.

Mae Torfaen yn monitro oson, gronynnau ac ocsidau nitrogen yn barhaus ar safle cefndir trefol yn ysgol uwchradd Croesyceiliog ac yn 2019 defnyddiodd 20 tiwb tryledu i fonitro deuocsid nitrogen ledled y fwrdeistref.

Mae data monitro yn dangos bod tuedd gefndirol gronynnau dros y 3 blynedd ddiwethaf ychydig yn is er bod y duedd mwy hirdymor dros y 16 blynedd flaenorol yn ymddangos yn eithaf sefydlog. Mae deuocsid nitrogen cefndirol wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2006.

1. Llywodraeth Cymru, gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru https://airquality.gov.wales/about-air-quality

Camau i Wella Ansawdd Aer

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eto wedi datgan unrhyw ARhAA ac fel y trafodwyd uchod, mae ar hyn o bryd yn casglu data ar faint un man problemus a adnabuwyd yn set data 2019. Mae gan weddill y fwrdeistref yn gyffredinol lefelau llygredd traffig isel. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynnal a gwella ansawdd presennol yr aer a fwynheir gan y trigolion drwy berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol, craffu manwl Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, a allai fod yn niweidiol i ansawdd aer, monitro cyfyngiadau allyriad Trwydded Amgylcheddol ynghyd â rheoleiddio a gorfodi Deddf Niwsans Statudol ac Aer Glân.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda diwydiant lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy'r drefn Caniatâd Amgylcheddol i helpu i reoli ansawdd aer. Mae'r Cyngor yn chwarae rôl actif ar y fforwm Ansawdd Aer Cymru ac yn cymryd rhan yn y diwrnod hyrwyddo Aer Glân blynyddol.

Mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus yn delio gyda chwynion o losgi niwsanllyd, mwg tywyll a du ac yn rhoi cyngor ar danwydd priodol ar gyfer offer llosgi coed domestig. Mae'r Cyngor hefyd yn chwarae rhan mewn nifer o gynlluniau i wella seilwaith gwyrdd, i hybu teithio llesol a gwella'r llwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref.

Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awyddus i gynyddu ei ddealltwriaeth o ansawdd yr aer yn y fwrdeistref ac felly yn 2018 bu i ni gynyddu nifer y tiwbiau tryledu a ddefnyddir bob mis i 20. Adroddwyd canlyniadau'r tiwbiau ychwanegol yn adroddiad cynnydd 2019. Yn 2019, cafwyd adolygiad ychwanegol o'r rhwydwaith tiwbiau tryledu. Arweiniodd hyn at gael gwared â phum safle a oedd yn gyson wedi dangos cyfartaleddau lefel llygredd isel. Symudwyd y tiwbiau hynny i 5 safle newydd a adnabuwyd fel rhai a allai elwa o waith monitro oherwydd eu bod naill ai yn lleoliadau o fewn Ardaloedd Cynllunio Blaenoriaeth Gweithredu ar Sŵn neu'n ardaloedd lle amheuid bod allyriad uwch na'r safleoedd gwreiddiol. Bydd canlyniadau blwyddyn gyntaf y pum safle newydd yma yn yr adroddiad cynnydd hwn.

Ar 7 Awst 2020, cafodd yr orsaf fonitro barhaus ar dir ysgol uwchradd Croesyceiliog ei chau dros dro. Mae hyn oherwydd bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar y safle fel

rhan o brosiect ysgolion yr 21ain ganrif. Nawr bod y datblygiad hwn wedi ei gwblhau, mae'r hen ysgol yn cael ei dymchwel ar yn o bryd. Roedd agosrwydd yr orsaf fonitro barhaus i'r hen ysgol yn golygu na fyddai mesuriadau ansawdd aer yn ddibynadwy yn ystod y cyfnod dymchwel. Unwaith y bydd y gwaith dymchwel wedi ei gwblhau bydd y orsaf yn cael ei hadleoli rhyw 20 medr o'r safle blaenorol.

Sut i Gymryd Rhan

Mae gwybodaeth bellach ar ansawdd aer yn ardal Torfaen ac yn gyffredinol i'w chael drwy fynd i adran ansawdd aer ein gwefan yma:

https://www.torfaen.gov.uk/cy/PestsPollutionHygiene/Pollution/Pollutioncontrol-airquality/Air-Quality.aspx

drwy fynd i wefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru yma:

https://airquality.gov.wales/air-pollution/site/CWMB

https://airquality.gov.wales

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, gallwch gysylltu â'r tîm Iechyd Cyhoeddus drwy ebost:

public.health@torfaen.gov.uk

neu drwy ein ffonio ar 01495 762200.